Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio'r Rheolau Sefydlog:

## Dirprwy Lywydd ychwanegol

Chwefror 2025

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell newidiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn rhoi effaith i ddarpariaethau Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, sy'n caniatáu i'r Senedd ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y nodir yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

# Cynnwys

**1. Y cefndir ... 3**

**2. Y newidiadau sydd eu hangen i Reol Sefydlog 6 (Y Llywydd a'r Dirprwy) ... 4**

**3. Materion eraill i'w nodi ... 7**

**4. Penderfyniad ... 8**

**Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol ... 9**

**Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog, fel y'u diwygiwyd ... 33**

# 1. Y cefndir

**1.** Mae Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2024") yn diwygio adran 25 (y Llywydd etc.) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") i wneud darpariaeth sy'n galluogi'r Senedd i ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol, yn ogystal â'r Dirprwy Lywydd y darperir ar ei gyfer eisoes o dan adran 25(1)(b) o'r Ddeddf. Bydd y darpariaethau hyn yn dod i rym ar ddechrau tymor y Seithfed Senedd yn 2026.

## Terminoleg

**2.** Mae'r Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd yn cynnwys cyfeiriadau at "Dirprwy" a "Dirprwy Lywydd", ac mae'r adran Dehongli yn diffinio "Dirprwy" fel y swyddog a etholir o dan adran 25(1)(b) o'r Ddeddf. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi trafod sut y dylid ymdrin â chyfeiriadau at y Dirprwy Lywydd/Dirprwy Lywyddion yn y Rheolau Sefydlog, yng ngoleuni'r posibilrwydd y gallai'r Senedd yn y dyfodol ethol hyd at ddau ddeiliad swydd. Mae'r Pwyllgor yn cynnig na ddylid gwahaniaethu'n gyffredinol rhwng y ddau ddeiliad swydd yn Rheolau Sefydlog y Senedd nac yn y canllawiau.

**3.** Mae angen diwygio'r adran Dehongli i ymdrin â'r posibilrwydd y bydd dau Ddirprwy Lywydd. Mae hyn yn cynnwys diffiniad newydd o "Dirprwy Lywyddion" i ymdrin ag amgylchiadau pan fo'r Senedd wedi ethol dau Ddirprwy Lywydd. Mae'r diffiniad hefyd yn pennu y dylid dehongli "Dirprwy Lywyddion" fel pe bai'n cyfeirio at un Dirprwy Lywydd os dim ond un Dirprwy Lywydd sydd yn y swydd.

**4.** Pan fo angen gwahaniaethu rhwng y ddwy swydd yn y Rheolau Sefydlog, yn enwedig mewn darpariaethau sy'n ymwneud â'r prosesau ar gyfer ethol i'r rolau a dirprwyo swyddogaethau'r Llywydd, cynigir y dylid cyfeirio at:

- "y Dirprwy Lywydd cyntaf", a ddiffinnir fel y Dirprwy Lywydd (gorfodol) a etholir o dan adran 25(1)(b) o'r Ddeddf; ac
- "yr ail Ddirprwy Lywydd", a ddiffinnir fel y Dirprwy Lywydd (dewisol) a etholir o dan adran 25(1A) o'r Ddeddf.

**5.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylid diffinio'r termau hyn yn yr adran Dehongli. Er eglurder, mae'r adroddiad hwn hefyd yn defnyddio'r termau "y Dirprwy Lywydd cyntaf" ac "yr ail Ddirprwy Lywydd" fel y'u diffinnir uchod.

# 2. Y newidiadau sydd eu hangen i Reol Sefydlog 6 (Y Llywydd a'r Dirprwy)

**6.** Trafododd y Pwyllgor Busnes oblygiadau'r newid deddfwriaethol yn ei gyfarfodydd ar 26 Mehefin 2025 a 9 Gorffennaf 2025, a daeth i'r casgliad bod angen gwneud nifer o newidiadau i Reolau Sefydlog y Senedd i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a wneir gan Ddeddf 2024.

## Penderfyniad i ethol ail Ddirprwy Lywydd

**7.** Mae Deddf 2024 yn mewnosod is-adran newydd, adran 25(1A), yn y Ddeddf, sy'n darparu y caiff y Senedd ethol ail Ddirprwy Lywydd o blith ei Haelodau ar unrhyw adeg. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol ethol ail Ddirprwy Lywydd, nac yn pennu pa ddull y dylai'r Senedd ei ddefnyddio i benderfynu a yw am fwrw ymlaen ag ethol ail Ddirprwy Lywydd.

**8.** Felly, bydd angen i'r Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth o ran y broses ar gyfer gwneud penderfyniad i ethol ail Ddirprwy Lywydd. Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai ethol ail Ddirprwy Lywydd fod yn ddewisol ac, os bydd yn digwydd, y dylai ddigwydd yn ddiweddarach nag ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf, sydd ill dwy yn swyddi gorfodol y mae rhaid eu llenwi yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Senedd.

**9.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig mai'r Llywydd ddylai ysgogi penderfyniad o'r fath, drwy wneud cynnig i'r Senedd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes. Mae'r Pwyllgor Busnes o'r farn y bydd hyn yn rhoi hyblygrwydd i unrhyw Senedd yn y dyfodol benderfynu a oes angen y capasiti ychwanegol a ddarperir gan ail Ddirprwy Lywydd, ac y bydd yn galluogi penderfyniadau o'r fath i gael eu gwneud ar sail amgylchiadau a gofynion Senedd benodol. Bydd hefyd yn caniatáu i benderfyniadau o'r fath gael eu harwain gan y Llywydd a'u llywio drwy ymgynghori â grwpiau gwleidyddol, gyda'r Senedd ei hun yn gwneud y penderfyniad terfynol.

## Ethol ail Ddirprwy Lywydd

### Y broses ethol

**10.** Os bydd y Senedd yn penderfynu ethol ail Ddirprwy Lywydd, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylid cynnal yr etholiad yn unol â'r broses pleidlais

gyfrinachol a ddefnyddir i ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf. Nodir hyn yn Rheolau Sefydlog 6.6 i 6.10B.

### Gofynion cymhwystra

**11.** Mae adran 25(7A) o'r Ddeddf (a fewnosodwyd gan Ddeddf 2024) yn cyflwyno gofynion cymhwystra newydd mewn perthynas â'r grŵp gwleidyddol y caiff ail Ddirprwy Lywydd berthyn iddo. Mae'r gofynion hyn yn nodi na chaiff yr ail Ddirprwy Lywydd berthyn:

- i'r un grŵp gwleidyddol â'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd cyntaf; nac
- i grŵp gwleidyddol nad oes ganddo rôl weithredol os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dau yn perthyn i grwpiau gwleidyddol nad oes ganddynt rôl weithredol.

**12.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylid gwneud y diwygiadau angenrheidiol i Reolau Sefydlog 6.12 a 6.13 i adlewyrchu'r gofynion hyn. Effaith hyn fydd na chaiff ail Ddirprwy Lywydd berthyn i'r un grŵp gwleidyddol â'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd cyntaf, a bod rhaid i ddeiliaid y tair swydd rhyngddynt gynrychioli grwpiau gwleidyddol y mae ganddynt rôl weithredol ac nad oes ganddynt rôl weithredol.

**13.** Mae'r darpariaethau hyn yn ddarostyngedig i'w datgymhwyso drwy bleidlais gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Senedd, o dan y mecanwaith presennol a nodir yn adran 25(9) o'r Ddeddf, sydd eisoes yn gymwys i aelodaeth y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf o grŵp gwleidyddol.

## Cyfnod y swydd

**14.** Mae Deddf 2024 yn diwygio adran 25(4) o'r Ddeddf i alluogi'r Rheolau Sefydlog i wneud darpariaeth i ail Ddirprwy Lywydd ddal y swydd am gyfnod byrrach na'r Dirprwy Lywydd cyntaf, sy'n gwasanaethu hyd nes y caiff y Senedd ei diddymu.

**15.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai ail Ddirprwy Lywydd, yn ddiofyn, ddal y swydd hyd nes y caiff y Senedd honno ei diddymu – hynny yw, y dylai cyfnod ei swydd fod yr un fath â chyfnod swydd y Dirprwy Lywydd cyntaf. Er hynny, er mwyn rhoi hyblygrwydd i'r Senedd, mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn cynnig y dylai'r Rheolau Sefydlog alluogi'r cynnig i ethol ail Ddirprwy Lywydd bennu cyfnod byrrach yn y swydd ar gyfer deiliad y swydd honno.

**16.** Ar hyn o bryd, mae Rheolau Sefydlog 6.26 a 6.27 yn darparu ar gyfer diswyddo'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd cyntaf gan y Senedd. Bydd y diwygiadau a gynigir i'r Rheolau Sefydlog hyn hefyd yn galluogi'r Senedd i benderfynu diswyddo'r ail Ddirprwy Lywydd.

## Pleidleisio yn ystod trafodion

**17.** Mae adran 25(13) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn caniatáu i'r Rheolau Sefydlog wneud darpariaeth ynghylch y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn cymryd rhan (gan gynnwys pleidleisio) yn nhrafodion y Senedd. Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 6.20 yn darparu mai dim ond wrth ddefnyddio pleidlais fwrw y caiff y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd bleidleisio yn y trafodion, heblaw pan fo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol pasio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle y bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd (Rheol Sefydlog 6.21).

**18.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai'r ddarpariaeth yn Rheolau Sefydlog 6.20 a 6.21 hefyd fod yn gwbl gymwys i unrhyw ail Ddirprwy Lywydd a etholir gan y Senedd.

**19.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cydnabod bod potensial i'r cyfyngiad hwn fod yn anghymhelliad rhag ethol ail Ddirprwy Lywydd. Mae o'r farn bod manteision cynnal egwyddor didueddrwydd y rôl, sicrhau cysondeb rhwng y cyfyngiadau a gymhwysir i'r ddau Ddirprwy Lywydd, ac osgoi creu gwahaniaeth sylweddol rhwng y rolau yn drech na'r risg honno.

**20.** Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn nodi y byddai'r Senedd, p'un a etholir ail Ddirprwy Lywydd ai peidio, yn dal i allu penodi Cadeirydd Gweithredol ar gyfer Cyfarfodydd Llawn (Rheolau Sefydlog 6.23A - 6.23D) a Chadeiryddion Dros Dro (Rheolau Sefydlog 6.22 - 6.23) i helpu i fodloni rhai o'r gofynion ychwanegol sy'n ymwneud â busnes y Cyfarfod Llawn mewn Senedd fwy o faint. Mae'r ddarpariaeth o dan Reol Sefydlog 6.24 sy'n galluogi'r Senedd i ethol Llywydd Dros Dro os na fydd yr un deiliad swydd yn gallu gweithredu hefyd yn cael ei chadw.

## Y swyddogaethau y gall Dirprwy Lywydd eu harfer

**21.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn rhagweld y byddai dirprwyo swyddogaethau i'r Dirprwy Lywydd (neu'r Dirprwy Lywyddion) mewn sefyllfa arferol yn digwydd yn ôl disgresiwn y Llywydd, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**22.** Mae adran 25(10) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn darparu y caiff Dirprwy Lywydd arfer swyddogaethau'r Llywydd os yw'r swydd honno'n wag neu os yw'r Llywydd yn methu â gweithredu – hynny yw, mewn sefyllfa lle nad yw'n bosibl i'r Llywydd ymdrin â dirprwyo swyddogaethau. Yn y sefyllfa hon, mae angen i'r Rheolau Sefydlog roi eglurder ynghylch pa unigolyn fyddai'n arfer y swyddogaethau hynny.

**23.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylid creu Rheol Sefydlog 6.18A newydd i ddarparu mai'r Dirprwy Lywydd cyntaf fyddai'n ysgwyddo swyddogaethau'r Llywydd. Os yw'r swydd honno hefyd yn wag, neu os yw'r Dirprwy Lywydd hwnnw'n methu â gweithredu, mae Rheol Sefydlog 6.18B yn pennu y bydd y swyddogaethau'n cael eu harfer gan yr ail Ddirprwy Lywydd (os bydd un wedi'i ethol gan y Senedd). Mae'r Pwyllgor Busnes yn nodi mai diben y Rheolau Sefydlog hyn yw rhoi eglurder o dan yr amgylchiadau penodol hyn yn hytrach na chreu hierarchaeth rhwng Dirprwy Lywyddion.

**24.** Pe bai sefyllfa'n codi lle na fyddai'r un Llywydd na Dirprwy Lywydd yn gallu gweithredu, byddai'r Senedd yn cadw'r gallu i benodi Llywydd Dros Dro o dan Reol Sefydlog 6.24.

# 3. Materion eraill i'w nodi

**25.** Yn ogystal â'r newidiadau a gynigir i Reol Sefydlog 6, mae nifer bach o gyfeiriadau at Ddirprwy Lywydd yn Rheolau Sefydlog 8, 11, 12, 18B a 26. Nodir mân newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog hyn hefyd yn Atodiad A.

**26.** Wrth ystyried y materion hyn, trafododd y Pwyllgor Busnes Argymhelliad 5 yn adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Biliau Diwygio ar Ddeddf 2024.[1] Roedd yr argymhelliad hwnnw'n awgrymu y dylid newid y teitlau Saesneg a ddefnyddir ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd i "Speaker" a "Deputy Speaker" yn y drefn honno.

**27.** Nododd y Pwyllgor Busnes fod y Rheolau Sefydlog ar hyn o bryd yn defnyddio'r teitlau statudol "Llywydd" a "Dirprwy Lywydd" yn Gymraeg, a "Presiding Officer" a "Deputy Presiding Officer" yn Saesneg. Cytunodd mwyafrif y Pwyllgor Busnes i beidio â chynnig unrhyw newid i'r teitlau a ddefnyddir ar hyn o bryd.

[1] Y Pwyllgor Biliau Diwygio, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Adroddiad Cyfnod 1, Ionawr 2024

# 4. Penderfyniad

**28.** Ar 9 Hydref 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i Reolau Sefydlog 6, 8, 11, 12, 18B a 26 a nodir yn yr adroddiad hwn. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a nodiadau esboniadol

| DEHONGLI |
| --- |

| | |
|---|---|
| ystyr **“Dirprwy Lywydd”** yw’~~r~~ Dirprwy Lywydd a etholir o dan naill ai adran 25(1)(b) neu adran 25(1A) o'r Ddeddf; | Diwygio'r dehongliad<br>Mae'r newid arfaethedig yn pennu bod cyfeiriadau at “Dirprwy Lywydd” yn y Rheolau Sefydlog yn cyfeirio at y naill neu’r llall o’r Dirprwy Lywyddion. Os bydd dau Ddirprwy Lywydd yn dal y swyddi ar y pryd, dirprwyir swyddogaethau penodol yn ôl disgresiwn y Llywydd. |
| ystyr **“Dirprwy Lywyddion”** yw pob un o ddeiliaid presennol swydd Dirprwy Lywydd a etholir o dan naill ai adran 25(1)(b) neu adran 25(1A) o'r Ddeddf; | Ychwanegu dehongliad newydd<br>Mae'r newid arfaethedig yn pennu bod cyfeiriadau at “Dirprwy Lywyddion” yn y Rheolau Sefydlog yn ymwneud â’r ddau Ddirprwy Lywydd (os oes dau Ddirprwy Lywydd yn dal y swyddi), neu at y Dirprwy Lywydd (os un Dirprwy Lywydd sydd yn y swydd). |
| ystyr **“y Dirprwy Lywydd cyntaf”** yw’r Dirprwy Lywydd a etholir o dan adran 25(1)(b) o’r Ddeddf; | Ychwanegu dehongliad newydd<br>Mae'r newid arfaethedig yn pennu mai dim ond â’r Dirprwy Lywydd (gorfodol) a etholir o dan adran 25(1)(b) o'r Ddeddf y mae cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at “y Dirprwy Lywydd cyntaf” yn ymwneud. |
| ystyr **“yr ail Ddirprwy Lywydd”** yw’r Dirprwy Lywydd a etholir o dan adran 25(1A) o’r Ddeddf; | Ychwanegu dehongliad newydd<br>Mae'r newid arfaethedig yn pennu mai dim ond â’r Dirprwy Lywydd (dewisol) a etholir o dan adran 25(1A) o'r Ddeddf y mae cyfeiriadau yn y Rheolau Sefydlog at “yr ail Ddirprwy” yn ymwneud. |

## RHEOL SEFYDLOG 6 – Y Llywydd a’r Dirprwy Lywyddion

| | | |
|---|---|---|
| **Ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf** | | Diwygio'r pennawd<br>Mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu’r ffaith mai dim ond ag ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd a etholir o dan adran 25(1)(b) o'r Ddeddf y mae’r adran hon yn ymwneud. |
| 6.1. | Yn ei ~~g~~chyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Senedd, rhaid i’r Senedd ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd cyntaf o blith ei Aelodau. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu’r ffaith mai dim ond y Dirprwy Lywydd cyntaf a fydd yn cael ei ethol yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Senedd.<br><br>Mae’r newid arfaethedig arall yn cywiro gwall gramadegol. |
| 6.2. | Os daw swydd y Llywydd neu swydd y Dirprwy Lywydd cyntaf yn wag, rhaid i’r Senedd ethol Aelod cyn gynted â phosibl i lenwi'r swydd wag. Mae ethol Llywydd yn cymryd blaenoriaeth dros bob busnes arall. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae angen y newid arfaethedig i bennu mai dim ond â'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd a etholir o dan adran 25(1)(b) o'r Ddeddf y mae’r Rheol Sefydlog hon yn ymwneud. |
| 6.3. | Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 6.4, mae’r trafodion ar gyfer ethol Llywydd yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Senedd i’w cadeirio gan y Llywydd a oedd yn dal y swydd yn union cyn etholiad y Senedd (“y cyn-Lywydd”). | Cadw'r Rheol Sefydlog |

| | | |
|---|---|---|
| 6.4. | Os ~~bydd~~:<br>(i) bydd y cyn-Lywydd yn anfodlon gweithredu neu’n methu gweithredu yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Senedd; neu<br>(ii)~~y~~na fydd yr un o’r Dirprwy Lywyddion yn ~~an~~fodlon gweithredu neu’n ~~methu~~gallu gweithredu mewn unrhyw etholiad ar gyfer Llywydd ar unrhyw adeg arall, neu os nad oes Dirprwy Lywyddion yn y swyddi,<br>mae’r trafodion ar gyfer ethol Llywydd i gael eu cadeirio gan y Clerc. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae angen y newid arfaethedig er mwyn sicrhau, pe bai mwy nag un Dirprwy Lywydd yn dal y swyddi ar yr adeg berthnasol, y byddai'r naill neu'r llall yn gallu llywyddu dros y trafodion i ethol Llywydd newydd pe bai’r trafodion hynny’n cael eu cynnal ar unrhyw adeg heblaw am y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Senedd. |
| 6.5. | Ni chaniateir i Aelod sy’n cadeirio trafodion ar gyfer ethol Llywydd gael ei enwebu i’w ethol yn Llywydd yn y trafodion hynny. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 6.6. | Wrth ethol Llywydd neu Ddirprwy Lywydd, rhaid i'r cadeirydd wahodd enwebiadau. Yn y lle cyntaf, ni fydd enwebiad yn ddilys oni chaiff ei eilio gan Aelod nad yw'n aelod o'r grŵp gwleidyddol y mae'r Aelod sy'n enwebu yn perthyn iddo. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae angen cynnwys y gair ‘Lywydd’ i gyd-fynd â’r diffiniad o ‘Dirprwy Lywydd’ yn yr adran Dehongli a’r derminoleg a ddefnyddir yng ngweddill Rheol Sefydlog 6. |
| 6.7. | Os yw'n ymddangos nad yw’r un Aelod yn debyg o gael ei enwebu a'i eilio gan aelodau nad ydynt yn perthyn i’r un grŵp, rhaid i’r cadeirydd ohirio'r trafodion, ac, wedi i’r trafodion ailddechrau, caiff y cadeirydd dderbyn enwebiadau sy'n cael eu heilio gan aelodau o'r un grŵp gwleidyddol â'r Aelod sy'n enwebu. | Cadw'r Rheol Sefydlog |

| | | |
|---|---|---|
| 6.8. | Os un enwebiad yn unig a geir, rhaid i'r cadeirydd gynnig bod yr Aelod a enwebwyd yn cael ei ethol yn Llywydd (neu'n Ddirprwy Lywydd yn ôl fel y digwydd). Os gwrthwynebir hynny, neu os ceir dau neu ragor o enwebiadau, rhaid i'r cadeirydd drefnu bod yr etholiad yn cael ei gynnal drwy bleidlais gyfrinachol. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae angen y newid arfaethedig i adlewyrchu'r ffaith y gall y Rheol Sefydlog ymwneud â phroses ethol y naill Ddirprwy Lywydd neu'r llall.<br><br>Mae angen cynnwys y gair 'Lywydd' i gyd-fynd â'r diffiniad o 'Dirprwy Lywydd' yn yr adran Dehongli a'r derminoleg a ddefnyddir yng ngweddill Rheol Sefydlog 6. |
| 6.9. | Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu, rhaid i'r cadeirydd ddatgan mai'r Aelod sydd wedi sicrhau'r nifer mwyaf o'r pleidleisiau a fwriwyd yn y bleidlais gyfrinachol sydd wedi'i ethol. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 6.10. | Os bydd mwy na dau Aelod wedi'u henwebu ac na fydd yr un Aelod yn cael mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd arall mewn pleidlais gyfrinachol, mae'r ymgeisydd (neu'r ymgeiswyr) sydd wedi cael y nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei hepgor (neu eu hepgor) ac mae rhagor o bleidleisiau cyfrinachol yn cael eu cynnal nes y bydd un ymgeisydd yn cael mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd arall; ac os bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer y ddau ymgeisydd sy'n weddill (neu'r unig ddau ymgeisydd) yn gyfartal, rhaid cynnal pleidlais gyfrinachol arall. | Cadw'r Rheol Sefydlog |

| | | |
|---|---|---|
| 6.10A. | Caiff ymgeisydd dynnu ei enw yn ôl yn dilyn unrhyw bleidlais gyfrinachol a gynhelir o dan Reol Sefydlog 6.10. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 6.10B. | Os, o ganlyniad i hepgor ymgeiswyr ac ymgeiswyr yn tynnu eu henwau yn ôl, bydd un ymgeisydd yn weddill nad yw wedi sicrhau mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd arall mewn unrhyw bleidlais gyfrinachol, rhaid i'r cadeirydd gynnig bod yr Aelod yn cael ei ethol yn Llywydd (neu'n Ddirprwy Lywydd, yn ôl fel y digwydd). Os gwrthwynebir hynny, rhaid i'r cadeirydd drefnu bod pleidlais yn cael ei chynnal drwy bleidlais gyfrinachol. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae angen y newid arfaethedig rhag ofn y bydd y sefyllfa hon yn codi wrth ethol un o'r Dirprwy Lywyddion. |
| 6.11. | Rhaid i'r Aelod a etholir yn Llywydd gymryd y llw neu roi cadarnhad ar unwaith os nad yw wedi gwneud hynny eisoes, ac wedyn cymryd y gadair. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 6.12. | Rhaid i'r Senedd beidio ag ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd cyntaf sy'n perthyn:<br>(i) i'r un grŵp gwleidyddol;<br>(ii) i grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol; neu<br>(iii) i grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan y naill na'r llall ohonynt rôl weithredol. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn pennu mai dim ond â'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf y mae'r cyfyngiadau hyn yn ymwneud. Ymdrinnir â chyfyngiadau sy'n ymwneud â grwpiau gwleidyddol ar gyfer ail Ddirprwy Lywydd yn yr adran nesaf. |

| | |
|---|---|
| 6.13. Caniateir i Reol Sefydlog 6.12 gael ei datgymhwyso drwy benderfyniad gan y Senedd (ar yr amod, os caiff y cynnig ar gyfer y penderfyniad ei basio drwy bleidlais, nad yw'n dod i rym oni bai bod o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio yn ei gefnogi); a chaiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig ar gyfer penderfyniad o'r fath yn union cyn i'r Senedd fwrw ymlaen i ethol Llywydd neu Ddirprwy <u>Lywydd cyntaf</u>. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn pennu mai dim ond â'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf y mae'r Rheol Sefydlog hon yn ymwneud. Cynigir Rheol Sefydlog gyfatebol ar gyfer ail Ddirprwy Lywydd yn yr adran nesaf. |
| 6.14. Os bydd y Llywydd a'r Dirprwy <u>Lywydd cyntaf</u>, yn ystod Senedd, yn dod yn aelodau:<br>(i) o'r un grŵp gwleidyddol;<br>(ii) o grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol; neu<br>(iii) o grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan y naill na'r llall ohonynt rôl weithredol,<br>ac na fydd y naill na'r llall yn ymddiswyddo, caiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig yn y cyfarfod llawn nesaf fod y Llywydd a'r Dirprwy <u>Lywydd cyntaf</u> yn parhau yn eu swyddi. Os na wneir cynnig o'r fath, neu os na chaiff y cynnig ei basio drwy bleidlais a gefnogir gan o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio, rhaid i'r Llywydd a'r Dirprwy <u>Lywydd cyntaf</u> ymddiswyddo. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn pennu mai dim ond â'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf y mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud. Trafodir darpariaethau cyfatebol mewn perthynas â'r ail Ddirprwy Lywydd yn yr adran nesaf. |
| <u>**Ethol ail Ddirprwy Lywydd**</u> | Mewnosod pennawd newydd |

| | |
|---|---|
| 6.14A. Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, caiff y Llywydd wneud cynnig bod y Senedd yn cytuno i ethol ail Ddirprwy Lywydd. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn cyflwyno darpariaeth ddewisol sy'n galluogi'r Llywydd ar unrhyw adeg (ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes) i wneud cynnig bod y Senedd yn cytuno i ethol ail Ddirprwy Lywydd. |
| 6.14B. Caiff cynnig o dan Reol Sefydlog 6.14A bennu bod yr ail Ddirprwy Lywydd yn dal y swydd tan y dyddiad a nodir yn y cynnig. Os nad yw cynnig o dan Reol Sefydlog 6.14A yn pennu dyddiad, bydd yr ail Ddirprwy Lywydd yn peidio â dal y swydd pan gaiff y Senedd ei diddymu. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn darparu y caiff y cynnig bod y Senedd yn cytuno i ethol ail Ddirprwy Lywydd bennu dyddiad pan fyddai ail Ddirprwy Lywydd yn peidio â dal y swydd. Mae hefyd yn pennu bod ail Ddirprwy Lywydd yn dal y swydd hyd nes y caiff y Senedd ei diddymu os nad oes dyddiad wedi'i bennu mewn cynnig o'r fath. |
| 6.14C. Os bydd y Senedd yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 6.14A, rhaid ethol yr ail Ddirprwy Lywydd yn unol â Rheolau Sefydlog 6.6 – 6.10B. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn pennu bod rhaid i'r broses ar gyfer ethol ail Ddirprwy Lywydd ddilyn yr un broses (enwebu yn y Cyfarfod Llawn a phleidlais gyfrinachol) ag a ddefnyddir i ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd cyntaf. |

| | |
|---|---|
| 6.14D. Rhaid i'r Senedd beidio ag ethol ail Ddirprwy Lywydd sy'n perthyn:<br>(i) i'r un grŵp gwleidyddol â'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd cyntaf;<br>(ii) i grŵp gwleidyddol y mae ganddo rôl weithredol, os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dau yn perthyn i grwpiau gwleidyddol y mae ganddynt rôl weithredol; neu<br>(iii) i grŵp gwleidyddol nad oes ganddo rôl weithredol, os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dau yn perthyn i grwpiau gwleidyddol nad oes ganddynt rôl weithredol. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn cyflwyno cyfyngiadau ar y grwpiau gwleidyddol y caniateir ethol ail Ddirprwy Lywydd ohonynt, fel sy'n ofynnol gan adran 25(7A) o'r Ddeddf. |
| 6.14E. Caniateir i Reol Sefydlog 6.14D gael ei datgymhwyso drwy benderfyniad gan y Senedd (ar yr amod, os caiff y cynnig ar gyfer y penderfyniad ei basio drwy bleidlais, nad yw'n dod i rym oni bai bod o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio yn ei gefnogi); a chaiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig ar gyfer penderfyniad o'r fath yn union cyn i'r Senedd fwrw ymlaen i ethol ail Ddirprwy Lywydd. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn cynnig darpariaeth gyfatebol ar gyfer datgymhwyso'r cyfyngiadau ar y grwpiau gwleidyddol y caniateir ethol ail Ddirprwy Lywydd ohonynt ag sy'n bodoli ar gyfer y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf, fel y darperir yn adran 25(9) o'r Ddeddf. |

| | |
|---|---|
| 6.14F. Os bydd yr ail Ddirprwy Lywydd a naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd cyntaf, yn ystod Senedd, yn dod yn aelodau o'r un grŵp gwleidyddol ac na fydd yr un ohonynt yn ymddiswyddo, caiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig yn y cyfarfod llawn nesaf fod y deiliaid swyddi perthnasol yn parhau yn eu swyddi. Os na wneir cynnig o'r fath, neu os na chaiff y cynnig ei basio drwy bleidlais a gefnogir gan o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio, rhaid i'r deiliaid swyddi sy'n aelodau o'r un grŵp gwleidyddol ymddiswyddo. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i Reol Sefydlog 6.14(i) mewn perthynas â sefyllfa lle mae'r ail Ddirprwy Lywydd a naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd cyntaf yn dod yn aelodau o'r un grŵp gwleidyddol yn ystod Senedd.<br>Os na wneir cynnig, neu os na dderbynnir y cynnig, rhaid i'r ddau ddeiliad swydd sy'n perthyn i'r un grŵp ymddiswyddo, ond nid yw hyn yn effeithio ar y trydydd. |
| 6.14G. Os bydd y Llywydd a'r ddau Ddirprwy Lywydd, yn ystod Senedd, i gyd yn dod yn aelodau:<br>(i) o grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan bob un ohonynt rôl weithredol; neu<br>(ii) o grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol,<br>ac na fydd yr un ohonynt yn ymddiswyddo, caiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig yn y cyfarfod llawn nesaf fod y Llywydd a'r ddau Ddirprwy Lywydd yn parhau yn eu swyddi. Os na wneir cynnig o'r fath, neu os na chaiff y cynnig ei basio drwy bleidlais a gefnogir gan o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio, rhaid i'r Llywydd a'r ddau Ddirprwy Lywydd ymddiswyddo. | Mewnosod Rheol Sefydlog newydd<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i Reolau Sefydlog 6.14(ii) a 6.14(iii) mewn perthynas â sefyllfa lle mae'r tri deiliad swydd yn dod yn Aelodau o grwpiau naill ai (a) y mae gan bob un ohonynt rôl weithredol, neu (b) nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol. |
| **Swyddogaethau'r Llywydd** | Cadw'r pennawd |

| | | |
|---|---|---|
| 6.15. | Swyddogaethau'r Llywydd yw:<br>(i) cadeirio cyfarfod llawn;<br>(ii) penderfynu ar gwestiynau ynglŷn â dehongli'r Rheolau Sefydlog neu sut i'w cymhwyso;<br>(iii) cynrychioli'r Senedd mewn trafodaethau ag unrhyw gyrff eraill, boed y tu mewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar y Senedd; a<br>(iv) unrhyw swyddogaethau eraill a roddir gan unrhyw ddeddfiad, gan y Senedd neu gan y Rheolau Sefydlog hyn. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 6.16. | Mae penderfyniadau'r Llywydd ar ddehongli'r Rheolau Sefydlog neu sut i'w cymhwyso yn derfynol. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 6.17. | Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, caiff y Llywydd roi canllawiau ysgrifenedig i'r Aelodau ynglŷn â chynnal trafodion y Senedd yn y modd priodol. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 6.18. | Yn absenoldeb y Llywydd neu yn unol â chais ganddo, rhaid i'r Dirprwy Lywyddion arfer swyddogaethau'r Llywydd, cyhyd ag y caniateir hynny gan y Ddeddf. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae angen y newid arfaethedig i adlewyrchu'r ffaith y gallai fod dau Ddirprwy Lywydd yn dal y swyddi. Y bwriad yw y bydd y Llywydd yn dirprwyo swyddogaethau i'r Dirprwy Lywyddion yn ôl ei ddisgresiwn. |

| | |
|---|---|
| 6.18A. Os bydd swydd y Llywydd yn wag, neu os bydd y Llywydd yn methu â gweithredu, rhaid i'r Dirprwy Lywydd cyntaf arfer swyddogaethau'r Llywydd, cyhyd ag y caniateir hynny gan y Ddeddf. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn pennu mai'r Dirprwy Lywydd cyntaf fyddai’n arfer swyddogaethau'r Llywydd, pe bai swydd y Llywydd yn wag neu pe bai'r Llywydd, yn annisgwyl, yn methu â gweithredu. |
| 6.18B. Os bydd swyddi’r Llywydd a’r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dwy yn wag, neu os bydd y Llywydd a’r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dau yn methu â gweithredu, rhaid i'r ail Ddirprwy Lywydd (os bydd ail Ddirprwy Lywydd yn y swydd) arfer swyddogaethau'r Llywydd, cyhyd ag y caniateir hynny gan y Ddeddf. | **Mewnosod Rheol Sefydlog newydd**<br>Mae'r Rheol Sefydlog arfaethedig yn pennu mai'r ail Ddirprwy Lywydd fyddai’n arfer swyddogaethau'r Llywydd, pe bai: swyddi’r Llywydd a’r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dwy yn wag; y ddau ddeiliad swydd, yn annisgwyl, yn methu â gweithredu; neu gyfuniad o’r ddwy sefyllfa. |
| 6.19. Wrth gyflawni swyddogaethau’r Llywydd, rhaid i’r Llywydd a’r Dirprwy Lywyddion amlygu didueddrwydd bob amser. | **Diwygio’r Rheol Sefydlog**<br>Mae angen y newid arfaethedig i adlewyrchu’r ffaith y gallai fod dau Ddirprwy Lywydd yn dal y swyddi. |
| 6.20. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 6.21, mewn cyfarfodydd llawn, dim ond wrth ddefnyddio pleidlais fwrw y caniateir i’r Llywydd neu’r Dirprwy Lywyddion bleidleisio. Os bydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, rhaid i bleidlais fwrw gael ei rhoi:<br>(i) yn gadarnhaol os oes rhagor o drafod ar y mater sydd gerbron y Senedd yn bosibl; a<br>(ii) yn negyddol os nad oes rhagor o drafod yn bosibl neu os ceir pleidlais ar welliant. | **Diwygio’r Rheol Sefydlog**<br>Mae angen y newid arfaethedig i adlewyrchu’r ffaith y gallai fod dau Ddirprwy Lywydd yn dal y swyddi. |

| | | |
|---|---|---|
| 6.21. | Caiff y Llywydd a'r Dirprwy <u>Lywyddion</u> bleidleisio mewn cyfarfodydd llawn lle bo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i basio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae angen y newid arfaethedig i adlewyrchu'r ffaith y gallai fod dau Ddirprwy Lywydd yn dal y swyddi. |
| **Cadeiryddion Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn** | | Cadw'r pennawd |
| 6.22. | Caiff unrhyw Aelod, ac eithrio aelod o'r llywodraeth, ar gais y Llywydd neu~~'r~~ D<u>d</u>irprwy <u>Lywydd</u> pan ~~fo'r naill neu'r llall~~<u>fônt</u> yn cadeirio cyfarfod llawn o'r Senedd, gadeirio dros dro. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae angen y newid arfaethedig i adlewyrchu'r ffaith y gallai fod dau Ddirprwy Lywydd yn dal y swyddi. |

| | |
|---|---|
| 6.23. Rhaid i Aelod sy'n gweithredu fel cadeirydd beidio ag arfer yr un o swyddogaethau'r Llywydd ac eithrio:<br>(i) galw busnes yn y drefn y mae'n ymddangos ar yr agenda;<br>(ii) gwneud trefniadau angenrheidiol i addasu'r amserlen ar gyfer busnes er mwyn hwyluso'r modd o gynnal busnes yn effeithiol;<br>(iii) ar ddiwedd y trafodion ar eitem o fusnes, gwahodd y Senedd i gytuno ar unrhyw gwestiynau y mae angen cytuno arnynt neu ohirio unrhyw gwestiynau y mae angen cytuno arnynt er mwyn cwblhau'r busnes yn unol â Rheolau Sefydlog 12.36 a 12.37;<br>(iv) cynnig y dylid grwpio cynigion neu welliannau yn unol â Rheol Sefydlog 12.40;<br>(v) o dan unrhyw amgylchiadau pan fydd yn credu bod hynny'n briodol, gohirio'r trafodion neu atal y trafodion am gyfnod penodedig;<br>(vi) y rhai a nodir yn Rheol Sefydlog 13 ac eithrio, os yw'r Aelod o'r farn bod ymddygiad Aelod yn cyfiawnhau ymneilltuo, fod yn rhaid i'r Aelod atal y cyfarfod dros dro nes y bydd y Llywydd neu~~'r~~ Ddirprwy Lywydd wedi dychwelyd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae angen y newid arfaethedig i adlewyrchu'r ffaith y gallai fod dau Ddirprwy Lywydd yn dal y swyddi. |
| **Cadeirydd Gweithredol y Cyfarfodydd Llawn** | Cadw'r pennawd |
| 6.23A. Caiff y Senedd ethol Cadeirydd Gweithredol at ddibenion cadeirio cyfarfodydd llawn. | Cadw'r Rheol Sefydlog |

| | |
|---|---|
| 6.23B. O ran swyddogaethau'r Llywydd, dim ond y swyddogaethau a ganlyn y caiff Cadeirydd Gweithredol a etholir o dan Reol Sefydlog 6.23A ymgymryd â hwy:<br>(i) swyddogaethau mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 12;<br>(ii) swyddogaethau mewn perthynas â threfn yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 13;<br>(iii) unrhyw swyddogaethau eraill mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 6.23C. Dim ond ar ôl i'r Clerc hysbysu'r Senedd ~~fod y~~nad yw'r Llywydd na'r Dirprwy Lywyddion yn ~~methu~~gallu ~~â~~ c~~h~~adeirio cyfarfodydd llawn y caiff Cadeirydd Gweithredol ymgymryd â'r swyddogaethau a bennir o dan Reol Sefydlog 6.23B. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn egluro mai dim ond os bydd y Llywydd a phob Dirprwy Lywydd yn methu â chadeirio cyfarfodydd llawn y caiff y Senedd ethol Cadeirydd Gweithredol ar gyfer cyfarfodydd llawn. Bydd hynny'n sicrhau cysondeb â'r ddarpariaeth bresennol ac yn sicrhau bod iaith y Rheolau Sefydlog yn gyson. |
| 6.23D. Bydd Cadeirydd Gweithredol yn peidio ag arfer y swyddogaethau hyn pan fydd y Clerc yn hysbysu'r Senedd fod naill ai'r Llywydd neu~~'r~~ Ddirprwy Lywydd yn gallu cadeirio cyfarfodydd llawn. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Bydd y newid arfaethedig yn sicrhau cysondeb â'r ddarpariaeth bresennol, fel y nodir uchod, ac yn sicrhau bod iaith y Rheolau Sefydlog yn gyson. |
| **Llywydd Dros Dro** | Cadw'r pennawd |

| | |
|---|---|
| 6.24. Bob tro ~~y bydd~~na fydd y Llywydd na'r Dirprwy Lywyddion ~~ill dau~~ yn ~~methu~~gallu gweithredu (ac eithrio o dan Reol Sefydlog 6.22), rhaid i'r Clerc gymryd y gadair a hynny dim ond er mwyn trefnu bod Aelod yn cael ei ethol i weithredu fel Llywydd dros dro, a rhaid i Aelod a etholir felly arfer swyddogaethau'r Llywydd nes y bydd naill ai'r Llywydd neu'~~r~~ Ddirprwy Lywydd yn gallu gweithredu. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn egluro mai dim ond os bydd y Llywydd a phob un o'r Dirprwy Lywyddion yn methu â gweithredu y caiff y Senedd ethol Llywydd Dros Dro. Bydd hynny'n sicrhau cysondeb â'r ddarpariaeth bresennol. |
| **Ymddiswyddiad neu Ddiswyddiad y Llywydd neu'~~r~~ Ddirprwy Lywydd** | Diwygio'r pennawd<br>Mae angen y newid arfaethedig i adlewyrchu'r ffaith y gallai fod dau Ddirprwy Lywydd yn dal y swyddi. |
| 6.25. Caiff y Llywydd neu'~~r~~ Ddirprwy Lywydd ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Clerc. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn egluro y caiff unrhyw Ddirprwy Lywydd ymddiswyddo. |
| 6.26. Os caiff cynnig:<br>(i) y dylid diswyddo'r Llywydd; neu<br>(ii) y dylid diswyddo'~~r~~ Dirprwy Lywydd,<br>ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod, rhaid trefnu bod amser ar gael cyn gynted â phosibl i'r cynnig gael ei drafod; a rhaid i'r ddadl honno gael ei chynnal beth bynnag o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl i'r cynnig gael ei gyflwyno. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn egluro y gall unrhyw Ddirprwy Lywydd fod yn destun cynnig i'w ddiswyddo.<br><br>*Sylwer: Mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu cynnig, ar wahân, y dylid codi'r trothwy yn y Rheol Sefydlog hon o chwe Aelod i ddeg Aelod.* |

| | |
|---|---|
| 6.27. Os bydd y Senedd yn penderfynu diswyddo’r Llywydd neu~~’r~~ Ddirprwy Lywydd, mae swydd y Llywydd neu’r Dirprwy Lywydd cyntaf neu’r ail Ddirprwy Lywydd, yn ôl fel y digwydd, yn wag ar unwaith. | Diwygio’r Rheol Sefydlog<br>Mae angen y newidiadau arfaethedig i egluro pa swydd sy’n dod yn wag os bydd un o’r Dirprwy Lywyddion yn cael ei ddiswyddo.<br>*Sylwer: Os daw swydd Dirprwy Lywydd cyntaf yn wag, mae’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.2 i’r swydd gael ei llenwi. Ni fyddai gofyniad o’r fath pe bai swydd ail Ddirprwy Lywydd yn dod yn wag.* |

| **RHEOL SEFYDLOG 8 – Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru** | | |
|---|---|---|
| **Enwebu Prif Weinidog Cymru** | | Cadw'r pennawd |
| 8.1. | Yn ddarostyngedig i adran 47(3) o'r Ddeddf, o fewn 28 diwrnod ar ôl digwyddiad a bennwyd yn adran 47(2) o'r Ddeddf, rhaid i'r Senedd enwebu Aelod i'w benodi'n Brif Weinidog Cymru ("yr enwebai"). | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| 8.2. | Rhaid i'r Llywydd wahodd enwebiadau. Os un enwebiad yn unig a wneir, rhaid i'r Llywydd ddatgan mai'r Aelod hwnnw yw'r enwebai. Os gwneir mwy nag un enwebiad, rhaid i'r Llywydd, drwy alw cofrestr yr Aelodau yn nhrefn yr wyddor, wahodd pob Aelod sy'n bresennol i bleidleisio dros ymgeisydd (ac eithrio na chaiff y Llywydd na'r Dirprwy <u>Lywyddion</u> bleidleisio). Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu, rhaid i'r Llywydd ddatgan mai'r ymgeisydd a gafodd y nifer mwyaf o'r pleidleisiau a fwriwyd yw'r enwebai. Os bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer y ddau ymgeisydd yn gyfartal, rhaid cynnal pleidlais arall drwy alw'r gofrestr. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn egluro na fyddai'r un Dirprwy Lywydd a etholir gan y Senedd yn gallu pleidleisio mewn trafodion i ethol Prif Weinidog. Mae hyn yn sicrhau cysondeb â'r ddarpariaeth bresennol ac â'r ffaith na all Dirprwy Lywydd bleidleisio yn nhrafodion y Senedd (ac eithrio wrth ddefnyddio pleidlais fwrw neu yn nhrafodion y cyfarfod llawn lle mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad neu gynnig gael ei basio drwy bleidlais lle bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd). |

| **RHEOL SEFYDLOG 11 – Trefn Busnes** |
|---|

| **Y Pwyllgor Busnes** | | Cadw'r pennawd |
|---|---|---|
| 11.1. | Bydd Pwyllgor Busnes, a hynny i hwyluso'r modd o drefnu trafodion y Senedd yn effeithiol. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| 11.2. | Nid yw Rheolau Sefydlog 17.2A i 17.6 yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| 11.3. | Cyn gynted â phosibl ar ôl etholiad y Senedd, rhaid i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth gyflwyno cynnig i benodi yn aelodau o'r Pwyllgor y Llywydd, un Aelod a enwebir gan bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd ac (os bydd unrhyw dri neu fwy o Aelodau nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol yn penderfynu ffurfio grwpiad at ddibenion Rheol Sefydlog 11) Aelod a enwebir gan bob grwpiad o Aelodau. Ni chaniateir cyflwyno gwelliannau i gynnig o dan Reol Sefydlog 11.3. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| 11.4. | Ni chaniateir pasio cynnig o dan Reol Sefydlog 11.3 (os yw'r cynnig yn cael ei basio drwy bleidlais) oni bai bod o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn ei gefnogi. | Cadw'r Rheol Sefydlog<br>Rheol Sefydlog wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |

| | |
|---|---|
| 11.5. Os caiff cynnig o dan Reol Sefydlog 11.3 ei basio:<br>(i) rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan y Llywydd (nad yw'n cael pleidleisio ac eithrio i arfer pleidlais fwrw, yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 11.5(iii));<br>(ii) bydd gan bob aelod arall o'r Pwyllgor un bleidlais am bob aelod o'r grŵp gwleidyddol (neu'r grwpiad gwleidyddol, yn ôl fel y digwydd) y mae'n ei gynrychioli (gan gynnwys ei hun a'r Llywydd a'r Dirprwy Lywyddion os ydynt hwythau'n aelodau o'i grŵp neu ei grwpiad gwleidyddol);<br>(iii) os yw nifer yr Aelodau nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol yn golygu (am y rheswm hwnnw yn unig) nad os modd iddynt ffurfio grŵp neu grwpiad gwleidyddol, bydd gan bob Aelod o'r fath hawl i fod yn bresennol yn nhrafodion y Pwyllgor a chaiff bleidleisio;<br>(iv) wrth ymgymryd â'r swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 11.7(ii) neu 11.7(iii), caiff aelod o'r Pwyllgor sy'n cynrychioli grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol ddefnyddio'r pleidleisiau sydd ganddo o dan Reol Sefydlog 11.5(ii), ond rhaid gostwng nifer y pleidleisiau yn ôl nifer sy'n gyfartal â nifer yr Aelodau sy'n aelodau o'i grŵp gwleidyddol ac sydd hefyd yn aelodau o'r llywodraeth;<br>(v) nid yw Rheolau Sefydlog 17.21, 17.22 a 17.37 i 17.39 yn gymwys i'r Pwyllgor. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu'r ffaith y gallai fod mwy nag un Dirprwy Lywydd yn dal y swyddi. |

## RHEOL SEGFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn

| **Cwestiynau Brys** | Cadw’r pennawd |
|---|---|
| 12.67. Ar unrhyw adeg y penderfynir arno gan y Llywydd, caiff y Llywydd alw ar Aelod i ofyn cwestiwn na roddwyd hysbysiad amdano o dan Reol Sefydlog 12.59:<br>(i) os yw’r Llywydd a’r aelod o’r llywodraeth o dan sylw, neu’r Comisiwn, yn ôl fel y digwydd, wedi cael o leiaf ddwy awr o hysbysiad ymlaen llaw cyn bod y cwestiwn i gael ei ofyn; a<br>(ii) os yw’r Llywydd yn fodlon bod y cwestiwn yn un o arwyddocâd cenedlaethol brys. | Cadw’r Rheol Sefydlog<br>Rheol Sefydlog wedi’i chynnwys er gwybodaeth yn unig. |
| 12.68. Os bydd y Llywydd wedi cael hysbysiad ymlaen llaw fod cais am gwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.67 yn ymwneud â swyddogaethau’r Comisiwn, caiff y swyddogaeth a ddyrennir i’r Llywydd yn 12.67(ii) ei haseinio i’~~r~~ Ddirprwy Lywydd. | Diwygio’r Rheol Sefydlog<br>Mae’r newidiadau arfaethedig yn galluogi unrhyw Ddirprwy Lywydd i benderfynu a ganiateir i Gwestiwn Brys sy’n ymwneud â swyddogaethau’r Comisiwn gael ei ofyn mewn cyfarfod llawn, ac maent yn sicrhau bod iaith y Rheolau Sefydlog yn gyson. |
| **Dadleuon Brys** | Cadw’r pennawd |

| | |
|---|---|
| 12.69. Mewn unrhyw gyfarfod llawn, caiff Aelod gynnig mewn araith heb fod yn fwy na thair munud y dylai'r Senedd ystyried mater penodol, ar yr amod:<br>(i) bod yr Aelod wedi hysbysu'r Llywydd ei fod yn dymuno gwneud hynny ac wedi'i hysbysu am y mater o leiaf awr cyn dechrau'r cyfarfod;<br>(ii) os nad yw'r mater yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn, os Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth sydd wedi rhoi'r hysbysiad, bod y Llywydd wedi rhoi cyfle i aelod o'r llywodraeth gyflwyno sylwadau iddo am y mater yn breifat;<br>(iii) os yw'r mater yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn, os Aelod heblaw aelod o'r Comisiwn sydd wedi rhoi'r hysbysiad, bod ~~y~~ Dirprwy Lywydd wedi rhoi cyfle i'r Comisiwn gyflwyno sylwadau iddo am y mater yn breifat; a<br>(iv) bod y Llywydd (neu~~'r~~ D<u>d</u>irprwy Lywydd os bydd y ddadl yn methu o dan Reol Sefydlog 12.69(iii)) yn fodlon bod y mater yn un o bwys cyhoeddus brys, a'i fod wedi hysbysu'r Aelod (ac, os oes angen hynny, yr aelod o'r llywodraeth neu'r Comisiwn, fel y bo'n briodol) yn unol â hynny. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig i Reol Sefydlog 12.69(iii) yn egluro y caiff unrhyw Ddirprwy Lywydd gyflawni'r swyddogaeth o roi cyfle i'r Comisiwn gyflwyno sylwadau yn breifat am fater sy'n destun cynnig ar gyfer Dadl Frys. Mae'r newidiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 12.69(iv) yn egluro y caiff unrhyw Ddirprwy Lywydd benderfynu y caniateir i gynnig ar gyfer Dadl Frys ar fater sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn gael ei wneud mewn cyfarfod llawn, ac maent yn sicrhau bod iaith y Rheolau Sefydlog yn gyson. |

## RHEOL SEFYDLOG 18B - Goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol

| **Aelodaeth Pwyllgor y Llywydd** | Cadw'r pennawd |
|---|---|
| 18B.3. Rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan y Llywydd neu~~'r~~ Ddirprwy Lywydd, ond dim ond wrth arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r cadeirydd bleidleisio. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn adlewyrchu'r ffaith y gallai fod mwy nag un Dirprwy Lywydd yn dal y swyddi, ac mae'n sicrhau bod iaith y Rheolau Sefydlog yn gyson. |
| 18B.3A. Yn absenoldeb y cadeirydd mewn cyfarfod, caiff y Pwyllgor benodi cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 yn gadeirydd dros dro drwy gydol y cyfarfod hwnnw. | Cadw'r Rheol Sefydlog |
| 18B.4. Rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar aelodaeth y Pwyllgor gynnig fel aelodau o'r Pwyllgor:<br>(i) ~~naill ai'r~~y Llywydd neu~~'r~~ Ddirprwy Lywydd fel cadeirydd y Pwyllgor;<br>(ii) cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19; a<br>(iii) un aelod o bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn egluro y caniateir cynnig unrhyw Ddirprwy Lywydd fel cadeirydd Pwyllgor y Llywydd, ac mae'n sicrhau bod iaith y Rheolau Sefydlog yn gyson. |

## RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Senedd

| **Cyfnod 2: Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor** | Cadw'r pennawd |
|---|---|
| 26.17. Yng Nghyfnod 2, rhaid i'r Pwyllgor Busnes:<br>(i) cyfeirio'r Bil yn ôl at y pwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2;<br>(ii) cyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2 os cytunodd y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 26.9 i beidio â chyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol; neu<br>(iii) cynnig, drwy gyfrwng cynnig yn y cyfarfod llawn, y dylai trafodion Cyfnod 2 gael eu hystyried gan Bwyllgor o'r Senedd gyfan i'w gadeirio gan y Llywydd. Dim ond er mwyn arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r Llywydd neu'r Dirprwy <u>Lywyddion</u> bleidleisio mewn trafodion o'r fath. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Mae'r newid arfaethedig yn pennu mai dim ond er mwyn arfer pleidlais fwrw y byddai unrhyw Ddirprwy Lywydd a etholir gan y Senedd yn cael pleidleisio yn nhrafodion Pwyllgor o'r Senedd Gyfan. |
| **Biliau Brys Llywodraeth** | Cadw'r pennawd |
| 26.103. Rhaid i Gyfnod 2 gael ei ystyried gan bwyllgor o'r Senedd gyfan a'i gadeirio gan y Llywydd. Caiff y Llywydd ~~a'r~~<u>neu'r</u> Dirprwy <u>Lywyddion</u> bleidleisio mewn trafodaethau o'r fath dim ond wrth ddefnyddio pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20. | |

# Atodiad B: Y Rheolau Sefydlog, fel y'u diwygiwyd

## DEHONGLI

- ystyr **"Dirprwy Lywydd"** yw Dirprwy Lywydd a etholir o dan naill ai adran 25(1)(b) neu adran 25(1A) o'r Ddeddf;
- ystyr **"Dirprwy Lywyddion"** yw pob un o ddeiliaid presennol swydd Dirprwy Lywydd a etholir o dan naill ai adran 25(1)(b) neu adran 25(1A) o'r Ddeddf;
- ystyr **"y Dirprwy Lywydd cyntaf"** yw'r Dirprwy Lywydd a etholir o dan adran 25(1)(b) o'r Ddeddf;
- ystyr **"yr ail Ddirprwy Lywydd"** yw'r Dirprwy Lywydd a etholir o dan adran 25(1A) o'r Ddeddf;

## RHEOL SEFYDLOG 6 – Y Llywydd a'r Dirprwy Lywyddion

### Ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf

6.1. Yn ei chyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Senedd, rhaid i'r Senedd ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd cyntaf o blith ei Aelodau.

6.2. Os daw swydd y Llywydd neu swydd y Dirprwy Lywydd cyntaf yn wag, rhaid i'r Senedd ethol Aelod cyn gynted â phosibl i lenwi'r swydd wag. Mae ethol Llywydd yn cymryd blaenoriaeth dros bob busnes arall.

6.3. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 6.4, mae'r trafodion ar gyfer ethol Llywydd yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Senedd i'w cadeirio gan y Llywydd a oedd yn dal y swydd yn union cyn etholiad y Senedd ("y cyn-Lywydd").

6.4. Os:

(i) bydd y cyn-Lywydd yn anfodlon gweithredu neu'n methu gweithredu yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad y Senedd; neu

(ii) na fydd yr un o'r Dirprwy Lywyddion yn fodlon gweithredu neu'n gallu gweithredu mewn unrhyw etholiad ar gyfer Llywydd ar unrhyw adeg arall, neu os nad oes Dirprwy Lywyddion yn y swyddi,

mae'r trafodion ar gyfer ethol Llywydd i gael eu cadeirio gan y Clerc.

6.5. Ni chaniateir i Aelod sy'n cadeirio trafodion ar gyfer ethol Llywydd gael ei enwebu i'w ethol yn Llywydd yn y trafodion hynny.

6.6. Wrth ethol Llywydd neu Ddirprwy Lywydd, rhaid i'r cadeirydd wahodd enwebiadau. Yn y lle cyntaf, ni fydd enwebiad yn ddilys oni chaiff ei eilio gan Aelod nad yw'n aelod o'r grŵp gwleidyddol y mae'r Aelod sy'n enwebu yn perthyn iddo.

6.7. Os yw'n ymddangos nad yw'r un Aelod yn debyg o gael ei enwebu a'i eilio gan aelodau nad ydynt yn perthyn i'r un grŵp, rhaid i'r cadeirydd ohirio'r trafodion, ac, wedi i'r trafodion ailddechrau, caiff y cadeirydd dderbyn enwebiadau sy'n cael eu heilio gan aelodau o'r un grŵp gwleidyddol â'r Aelod sy'n enwebu.

6.8. Os un enwebiad yn unig a geir, rhaid i'r cadeirydd gynnig bod yr Aelod a enwebwyd yn cael ei ethol yn Llywydd (neu'n Ddirprwy Lywydd yn ôl fel y digwydd). Os gwrthwynebir hynny, neu os ceir dau neu ragor o enwebiadau, rhaid i'r cadeirydd drefnu bod yr etholiad yn cael ei gynnal drwy bleidlais gyfrinachol.

6.9. Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu, rhaid i'r cadeirydd ddatgan mai'r Aelod sydd wedi sicrhau'r nifer mwyaf o'r pleidleisiau a fwriwyd yn y bleidlais gyfrinachol sydd wedi'i ethol.

6.10. Os bydd mwy na dau Aelod wedi'u henwebu ac na fydd yr un Aelod yn cael mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd arall mewn pleidlais gyfrinachol, mae'r ymgeisydd (neu'r ymgeiswyr) sydd wedi cael y nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei hepgor (neu eu hepgor) ac mae rhagor o bleidleisiau cyfrinachol yn cael eu cynnal nes y bydd un ymgeisydd yn cael mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd arall; ac os bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer y ddau ymgeisydd sy'n weddill (neu'r

unig ddau ymgeisydd) yn gyfartal, rhaid cynnal pleidlais gyfrinachol arall.

6.10A. Caiff ymgeisydd dynnu ei enw yn ôl yn dilyn unrhyw bleidlais gyfrinachol a gynhelir o dan Reol Sefydlog 6.10.

6.10B. Os, o ganlyniad i hepgor ymgeiswyr ac ymgeiswyr yn tynnu eu henwau yn ôl, bydd un ymgeisydd yn weddill nad yw wedi sicrhau mwy o bleidleisiau na chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob ymgeisydd arall mewn unrhyw bleidlais gyfrinachol, rhaid i'r cadeirydd gynnig bod yr Aelod yn cael ei ethol yn Llywydd (neu'n Ddirprwy Lywydd, yn ôl fel y digwydd). Os gwrthwynebir hynny, rhaid i'r cadeirydd drefnu bod pleidlais yn cael ei chynnal drwy bleidlais gyfrinachol.

6.11. Rhaid i'r Aelod a etholir yn Llywydd gymryd y llw neu roi cadarnhad ar unwaith os nad yw wedi gwneud hynny eisoes, ac wedyn cymryd y gadair.

6.12. Rhaid i'r Senedd beidio ag ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd cyntaf sy'n perthyn:

(i) i'r un grŵp gwleidyddol;

(ii) i grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol; neu

(iii) i grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan y naill na'r llall ohonynt rôl weithredol.

6.13. Caniateir i Reol Sefydlog 6.12 gael ei datgymhwyso drwy benderfyniad gan y Senedd (ar yr amod, os caiff y cynnig ar gyfer y penderfyniad ei basio drwy bleidlais, nad yw'n dod i rym oni bai bod o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio yn ei gefnogi); a chaiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig ar gyfer penderfyniad o'r fath yn union cyn i'r Senedd fwrw ymlaen i ethol Llywydd neu Ddirprwy Lywydd cyntaf.

6.14. Os bydd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf, yn ystod Senedd, yn dod yn aelodau:

(i) o'r un grŵp gwleidyddol;

(ii) o grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan y ddau ohonynt rôl weithredol; neu

(iii) o grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan y naill na'r llall ohonynt rôl weithredol,

ac na fydd y naill na'r llall yn ymddiswyddo, caiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig yn y cyfarfod llawn nesaf fod y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf yn parhau yn eu swyddi. Os na wneir cynnig o'r fath, neu os na chaiff y cynnig ei basio drwy bleidlais a gefnogir gan o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio, rhaid i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf ymddiswyddo.

## Ethol ail Ddirprwy Lywydd

6.14A. Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, caiff y Llywydd wneud cynnig bod y Senedd yn cytuno i ethol ail Ddirprwy Lywydd.

6.14B. Caiff cynnig o dan Reol Sefydlog 6.14A bennu bod yr ail Ddirprwy Lywydd yn dal y swydd tan y dyddiad a nodir yn y cynnig. Os nad yw cynnig o dan Reol Sefydlog 6.14A yn pennu dyddiad, bydd yr ail Ddirprwy Lywydd yn peidio â dal y swydd pan gaiff y Senedd ei diddymu.

6.14C. Os bydd y Senedd yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 6.14A, rhaid ethol yr ail Ddirprwy Lywydd yn unol â Rheolau Sefydlog 6.6 – 6.10B.

6.14D. Rhaid i'r Senedd beidio ag ethol ail Ddirprwy Lywydd sy'n perthyn:

(i) i'r un grŵp gwleidyddol â'r Llywydd na'r Dirprwy Lywydd cyntaf;

(ii) i grŵp gwleidyddol y mae ganddo rôl weithredol, os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dau yn perthyn i grwpiau gwleidyddol y mae ganddynt rôl weithredol; neu

(iii) i grŵp gwleidyddol nad oes ganddo rôl weithredol, os yw'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dau yn perthyn i grwpiau gwleidyddol nad oes ganddynt rôl weithredol.

6.14E. Caniateir i Reol Sefydlog 6.14D gael ei datgymhwyso drwy benderfyniad gan y Senedd (ar yr amod, os caiff y cynnig ar gyfer y penderfyniad ei basio drwy bleidlais, nad yw'n dod i rym oni bai bod o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio yn ei gefnogi); a chaiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig ar gyfer penderfyniad o'r fath yn union cyn i'r Senedd fwrw ymlaen i ethol ail Ddirprwy Lywydd.

6.14F. Os bydd yr ail Ddirprwy Lywydd a naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd cyntaf, yn ystod Senedd, yn dod yn aelodau o'r un grŵp gwleidyddol ac na fydd yr un ohonynt yn ymddiswyddo, caiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig yn y cyfarfod llawn nesaf fod y deiliaid swyddi perthnasol yn parhau yn eu swyddi. Os na wneir cynnig o'r fath, neu os na chaiff y cynnig ei basio drwy bleidlais a gefnogir gan o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio, rhaid i'r deiliaid swyddi sy'n aelodau o'r un grŵp gwleidyddol ymddiswyddo.

6.14G. Os bydd y Llywydd a'r ddau Ddirprwy Lywydd, yn ystod Senedd, i gyd yn dod yn aelodau:

(i) o grwpiau gwleidyddol gwahanol y mae gan bob un ohonynt rôl weithredol; neu

(ii) o grwpiau gwleidyddol gwahanol nad oes gan yr un ohonynt rôl weithredol,

ac na fydd yr un ohonynt yn ymddiswyddo, caiff unrhyw Aelod, heb roi hysbysiad, wneud cynnig yn y cyfarfod llawn nesaf fod y Llywydd a'r ddau Ddirprwy Lywydd yn parhau yn eu swyddi. Os na wneir cynnig o'r fath, neu os na chaiff y cynnig ei basio drwy bleidlais a gefnogir gan

o leiaf ddwy ran o dair o'r rhai sy'n pleidleisio, rhaid i'r Llywydd a'r ddau Ddirprwy Lywydd ymddiswyddo.

## Swyddogaethau'r Llywydd

6.15. Swyddogaethau'r Llywydd yw:

(i) cadeirio cyfarfod llawn;

(ii) penderfynu ar gwestiynau ynglŷn â dehongli'r Rheolau Sefydlog neu sut i'w cymhwyso;

(iii) cynrychioli'r Senedd mewn trafodaethau ag unrhyw gyrff eraill, boed y tu mewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar y Senedd; a

(iv) unrhyw swyddogaethau eraill a roddir gan unrhyw ddeddfiad, gan y Senedd neu gan y Rheolau Sefydlog hyn.

6.16. Mae penderfyniadau'r Llywydd ar ddehongli'r Rheolau Sefydlog neu sut i'w cymhwyso yn derfynol.

6.17. Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, caiff y Llywydd roi canllawiau ysgrifenedig i'r Aelodau ynglŷn â chynnal trafodion y Senedd yn y modd priodol.

6.18. Yn absenoldeb y Llywydd neu yn unol â chais ganddo, rhaid i'r Dirprwy Lywyddion arfer swyddogaethau'r Llywydd, cyhyd ag y caniateir hynny gan y Ddeddf.

6.18A. Os bydd swydd y Llywydd yn wag, neu os bydd y Llywydd yn methu â gweithredu, rhaid i'r Dirprwy Lywydd cyntaf arfer swyddogaethau'r Llywydd, cyhyd ag y caniateir hynny gan y Ddeddf.

6.18B. Os bydd swyddi'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dwy yn wag, neu os bydd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd cyntaf ill dau yn methu â gweithredu, rhaid i'r ail Ddirprwy Lywydd (os bydd ail Ddirprwy Lywydd yn y swydd) arfer swyddogaethau'r Llywydd, cyhyd ag y caniateir hynny gan y Ddeddf.

6.19. Wrth gyflawni swyddogaethau'r Llywydd, rhaid i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywyddion amlygu didueddrwydd bob amser.

6.20. Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 6.21, mewn cyfarfodydd llawn, dim ond wrth ddefnyddio pleidlais fwrw y caniateir i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywyddion bleidleisio. Os bydd nifer y pleidleisiau yn gyfartal, rhaid i bleidlais fwrw gael ei rhoi:

(i) yn gadarnhaol os oes rhagor o drafod ar y mater sydd gerbron y Senedd yn bosibl; a

(ii) yn negyddol os nad oes rhagor o drafod yn bosibl neu os ceir pleidlais ar welliant.

6.21. Caiff y Llywydd a'r Dirprwy Lywyddion bleidleisio mewn cyfarfodydd llawn lle bo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i basio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd.

### Cadeiryddion Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn

6.22. Caiff unrhyw Aelod, ac eithrio aelod o'r llywodraeth, ar gais y Llywydd neu Ddirprwy Lywydd pan fônt yn cadeirio cyfarfod llawn o'r Senedd, gadeirio dros dro.

6.23. Rhaid i Aelod sy'n gweithredu fel cadeirydd beidio ag arfer yr un o swyddogaethau'r Llywydd ac eithrio:

(i) galw busnes yn y drefn y mae'n ymddangos ar yr agenda;

(ii) gwneud trefniadau angenrheidiol i addasu'r amserlen ar gyfer busnes er mwyn hwyluso'r modd o gynnal busnes yn effeithiol;

(iii) ar ddiwedd y trafodion ar eitem o fusnes, gwahodd y Senedd i gytuno ar unrhyw gwestiynau y mae angen cytuno arnynt neu ohirio unrhyw gwestiynau y mae angen cytuno arnynt er mwyn cwblhau'r busnes yn unol â Rheolau Sefydlog 12.36 a 12.37;

(iv) cynnig y dylid grwpio cynigion neu welliannau yn unol â Rheol Sefydlog 12.40;

(v) o dan unrhyw amgylchiadau pan fydd yn credu bod hynny'n briodol, gohirio'r trafodion neu atal y trafodion am gyfnod penodedig;

(vi) y rhai a nodir yn Rheol Sefydlog 13 ac eithrio, os yw'r Aelod o'r farn bod ymddygiad Aelod yn cyfiawnhau ymneilltuo, fod yn rhaid i'r Aelod atal y cyfarfod dros dro nes y bydd y Llywydd neu Ddirprwy Lywydd wedi dychwelyd.

## Cadeirydd Gweithredol y Cyfarfodydd Llawn

6.23A. Caiff y Senedd ethol Cadeirydd Gweithredol at ddibenion cadeirio cyfarfodydd llawn.

6.23B. O ran swyddogaethau'r Llywydd, dim ond y swyddogaethau a ganlyn y caiff Cadeirydd Gweithredol a etholir o dan Reol Sefydlog 6.23A ymgymryd â hwy:

(i) swyddogaethau mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 12;

(ii) swyddogaethau mewn perthynas â threfn yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 13;

(iii) unrhyw swyddogaethau eraill mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn.

6.23C. Dim ond ar ôl i'r Clerc hysbysu'r Senedd nad yw'r Llywydd na'r Dirprwy Lywyddion yn gallu cadeirio cyfarfodydd llawn y caiff Cadeirydd

Gweithredol ymgymryd â'r swyddogaethau a bennir o dan Reol Sefydlog 6.23B.

6.23D. Bydd Cadeirydd Gweithredol yn peidio ag arfer y swyddogaethau hyn pan fydd y Clerc yn hysbysu'r Senedd fod naill ai'r Llywydd neu Ddirprwy Lywydd yn gallu cadeirio cyfarfodydd llawn.

Llywydd Dros Dro

6.24. Bob tro na fydd y Llywydd na'r Dirprwy Lywyddion yn gallu gweithredu (ac eithrio o dan Reol Sefydlog 6.22), rhaid i'r Clerc gymryd y gadair a hynny dim ond er mwyn trefnu bod Aelod yn cael ei ethol i weithredu fel Llywydd dros dro, a rhaid i Aelod a etholir felly arfer swyddogaethau'r Llywydd nes y bydd naill ai'r Llywydd neu Ddirprwy Lywydd yn gallu gweithredu.

Ymddiswyddiad neu Ddiswyddiad y Llywydd neu Ddirprwy Lywydd

6.25. Caiff y Llywydd neu Ddirprwy Lywydd ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Clerc.

6.26. Os caiff cynnig:

(i) y dylid diswyddo'r Llywydd; neu

(ii) y dylid diswyddo Dirprwy Lywydd,

ei gyflwyno gan o leiaf chwe Aelod, rhaid trefnu bod amser ar gael cyn gynted â phosibl i'r cynnig gael ei drafod; a rhaid i'r ddadl honno gael ei chynnal beth bynnag o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl i'r cynnig gael ei gyflwyno.

6.27. Os bydd y Senedd yn penderfynu diswyddo'r Llywydd neu Ddirprwy Lywydd, mae swydd y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd cyntaf neu'r ail Ddirprwy Lywydd, yn ôl fel y digwydd, yn wag ar unwaith.

## RHEOL SEFYDLOG 8 – Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru

Enwebu Prif Weinidog Cymru

8.1. Yn ddarostyngedig i adran 47(3) o'r Ddeddf, o fewn 28 diwrnod ar ôl digwyddiad a bennwyd yn adran 47(2) o'r Ddeddf, rhaid i'r Senedd enwebu Aelod i'w benodi'n Brif Weinidog Cymru ("yr enwebai").

8.2. Rhaid i'r Llywydd wahodd enwebiadau. Os un enwebiad yn unig a wneir, rhaid i'r Llywydd ddatgan mai'r Aelod hwnnw yw'r enwebai. Os gwneir mwy nag un enwebiad, rhaid i'r Llywydd, drwy alw cofrestr yr Aelodau yn nhrefn yr wyddor, wahodd pob Aelod sy'n bresennol i bleidleisio dros ymgeisydd (ac eithrio na chaiff y Llywydd na'r Dirprwy Lywyddion bleidleisio). Os bydd dau Aelod wedi'u henwebu, rhaid i'r Llywydd ddatgan mai'r ymgeisydd a gafodd y nifer mwyaf o'r pleidleisiau a fwriwyd yw'r enwebai. Os bydd nifer y pleidleisiau ar gyfer y ddau ymgeisydd yn gyfartal, rhaid cynnal pleidlais arall drwy alw'r gofrestr.

## RHEOL SEFYDLOG 11 – Trefn Busnes

### Y Pwyllgor Busnes

11.1. Bydd Pwyllgor Busnes, a hynny i hwyluso'r modd o drefnu trafodion y Senedd yn effeithiol.

11.2. Nid yw Rheolau Sefydlog 17.2A i 17.6 yn gymwys i'r Pwyllgor Busnes.

11.3. Cyn gynted â phosibl ar ôl etholiad y Senedd, rhaid i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth gyflwyno cynnig i benodi yn aelodau o'r Pwyllgor y Llywydd, un Aelod a enwebir gan bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd ac (os bydd unrhyw dri neu fwy o Aelodau nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol yn penderfynu ffurfio grwpiad at ddibenion Rheol Sefydlog 11) Aelod a enwebir gan bob grwpiad o Aelodau. Ni chaniateir cyflwyno gwelliannau i gynnig o dan Reol Sefydlog 11.3.

11.4. Ni chaniateir pasio cynnig o dan Reol Sefydlog 11.3 (os yw'r cynnig yn cael ei basio drwy bleidlais) oni bai bod o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau sy'n pleidleisio yn ei gefnogi.

11.5. Os caiff cynnig o dan Reol Sefydlog 11.3 ei basio:

(i) rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan y Llywydd (nad yw'n cael pleidleisio ac eithrio i arfer pleidlais fwrw, yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 11.5(iii));

(ii) bydd gan bob aelod arall o'r Pwyllgor un bleidlais am bob aelod o'r grŵp gwleidyddol (neu'r grwpiad gwleidyddol, yn ôl fel y digwydd) y mae'n ei gynrychioli (gan gynnwys ei hun a'r Llywydd a'r Dirprwy Lywyddion os ydynt hwythau'n aelodau o'i grŵp neu ei grwpiad gwleidyddol);

(iii) os yw nifer yr Aelodau nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol yn golygu (am y rheswm hwnnw yn unig) nad os modd iddynt ffurfio grŵp neu grwpiad gwleidyddol, bydd gan bob Aelod o'r fath hawl i fod yn bresennol yn nhrafodion y Pwyllgor a chaiff bleidleisio;

(iv) wrth ymgymryd â'r swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 11.7(ii) neu 11.7(iii), caiff aelod o'r Pwyllgor sy'n cynrychioli grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol ddefnyddio'r pleidleisiau sydd ganddo o dan Reol Sefydlog 11.5(ii), ond rhaid gostwng nifer y pleidleisiau yn ôl nifer sy'n gyfartal â nifer yr Aelodau sy'n aelodau o'i grŵp gwleidyddol ac sydd hefyd yn aelodau o'r llywodraeth;

(v) nid yw Rheolau Sefydlog 17.21, 17.22 a 17.37 i 17.39 yn gymwys i'r Pwyllgor.

## RHEOL SEGFYDLOG 12 – Busnes yn y Cyfarfodydd Llawn

Cwestiynau Brys

12.67. Ar unrhyw adeg y penderfynir arno gan y Llywydd, caiff y Llywydd alw ar Aelod i ofyn cwestiwn na roddwyd hysbysiad amdano o dan Reol Sefydlog 12.59:

(i) os yw'r Llywydd a'r aelod o'r llywodraeth o dan sylw, neu'r Comisiwn, yn ôl fel y digwydd, wedi cael o leiaf ddwy awr o hysbysiad ymlaen llaw cyn bod y cwestiwn i gael ei ofyn; a

(ii) os yw'r Llywydd yn fodlon bod y cwestiwn yn un o arwyddocâd cenedlaethol brys.

12.68. Os bydd y Llywydd wedi cael hysbysiad ymlaen llaw fod cais am gwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.67 yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn, caiff y swyddogaeth a ddyrennir i'r Llywydd yn 12.67(ii) ei haseinio i Ddirprwy Lywydd.

Dadleuon Brys

12.69. Mewn unrhyw gyfarfod llawn, caiff Aelod gynnig mewn araith heb fod yn fwy na thair munud y dylai'r Senedd ystyried mater penodol, ar yr amod:

(i) bod yr Aelod wedi hysbysu'r Llywydd ei fod yn dymuno gwneud hynny ac wedi'i hysbysu am y mater o leiaf awr cyn dechrau'r cyfarfod;

(ii) os nad yw'r mater yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn, os Aelod heblaw aelod o'r llywodraeth sydd wedi rhoi'r hysbysiad, bod y Llywydd wedi rhoi cyfle i aelod o'r llywodraeth gyflwyno sylwadau iddo am y mater yn breifat;

(iii) os yw'r mater yn ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn, os Aelod heblaw aelod o'r Comisiwn sydd wedi rhoi'r hysbysiad, bod Dirprwy Lywydd wedi rhoi cyfle i'r Comisiwn gyflwyno sylwadau iddo am y mater yn breifat; a

(iv) bod y Llywydd (neu Ddirprwy Lywydd os bydd y ddadl yn methu o dan Reol Sefydlog 12.69(iii)) yn fodlon bod y mater yn un o bwys cyhoeddus brys, a'i fod wedi hysbysu'r Aelod (ac, os oes angen hynny, yr aelod o'r llywodraeth neu'r Comisiwn, fel y bo'n briodol) yn unol â hynny.

## RHEOL SEFYDLOG 18B - Goruchwylio'r Comisiwn Etholiadol

### Aelodaeth Pwyllgor y Llywydd

18B.3. Rhaid i'r Pwyllgor gael ei gadeirio gan y Llywydd neu Ddirprwy Lywydd, ond dim ond wrth arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r cadeirydd bleidleisio.

18B.3A. Yn absenoldeb y cadeirydd mewn cyfarfod, caiff y Pwyllgor benodi cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19 yn gadeirydd dros dro drwy gydol y cyfarfod hwnnw.

18B.4. Rhaid i'r cynnig a gyflwynir gan y Pwyllgor Busnes i gytuno ar aelodaeth y Pwyllgor gynnig fel aelodau o'r Pwyllgor:

(i) y Llywydd neu Ddirprwy Lywydd fel cadeirydd y Pwyllgor;

(ii) cadeirydd y pwyllgor cyfrifol o dan Reol Sefydlog 19; a

(iii) un aelod o bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.

## RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Senedd

### Cyfnod 2: Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

26.17. Yng Nghyfnod 2, rhaid i'r Pwyllgor Busnes:

(i) cyfeirio'r Bil yn ôl at y pwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2;

(ii) cyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2 os cytunodd y Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 26.9 i beidio â chyfeirio'r ystyriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol at bwyllgor cyfrifol; neu

(iii) cynnig, drwy gyfrwng cynnig yn y cyfarfod llawn, y dylai trafodion Cyfnod 2 gael eu hystyried gan Bwyllgor o'r Senedd gyfan i'w gadeirio gan y Llywydd. Dim ond er mwyn arfer pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20 y caniateir i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywyddion bleidleisio mewn trafodion o'r fath.

### Biliau Brys Llywodraeth

26.103. Rhaid i Gyfnod 2 gael ei ystyried gan bwyllgor o'r Senedd gyfan a'i gadeirio gan y Llywydd. Caiff y Llywydd neu'r Dirprwy Lywyddion

bleidleisio mewn trafodaethau o'r fath dim ond wrth ddefnyddio pleidlais fwrw yn unol â Rheol Sefydlog 6.20.